Senedd Cymru
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Gorffennaf 2023

1. Y cefndir

Iechyd a Gofal Digidol Cymru

1. Sefydlwyd Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel Awdurdod Iechyd Arbennig newydd ym mis Ebrill 2021, gan ddisodli Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae ei rolau o ran trawsnewid darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cynnwys: darparu atebion digidol newydd, cefnogi staff rheng flaen gyda systemau modern, a gwella dulliau o ddefnyddio, rhannu a storio data.

Ein gwaith craffu

2. Cytunodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i weithio gyda'i gilydd i gynnal gwaith craffu cychwynnol ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

3. Mae ein gwaith craffu[1] wedi'i lywio gan y canlynol:

- Galwad agored am dystiolaeth ysgrifenedig rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2022, a gafodd dros 20 o ymatebion gan ystod o randdeiliaid iechyd a gofal cymdeithasol.
- Sesiwn tystiolaeth lafar gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar 26 Hydref 2022.

[1] Mae manylion am gylch gorchwyl ein gwaith craffu, a'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu, ar gael ar dudalen gwe yr ymchwiliad.

- Tystiolaeth ysgrifenedig bellach gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru a byrddau iechyd ym mis Ionawr 2023.

4. Rydym hefyd wedi defnyddio'r gwaith a wnaed gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd ar Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, sef rhagflaenydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru.[2]

5. Adolygwyd y dystiolaeth gennym yn ystod gwanwyn 2023. Mae'r adroddiad byr hwn yn crynhoi'r themâu allweddol, ac yn gwneud argymhellion.

2. Pontio i sefydliad newydd

Pontio o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i Iechyd a Gofal Digidol Cymru

6. Yn dilyn yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal, ac argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Swyddfa Archwilio Cymru ar y pryd, comisiynodd Llywodraeth Cymru ddau adolygiad annibynnol o agweddau digidol ym maes iechyd a gofal:

- Yr Adolygiad Llywodraethu Digidol, a oedd yn argymell sefydlu Prif Swyddog Digidol newydd ar gyfer Iechyd a Gofal; pwyslais cryfach ar safonau technegol cyffredin; strwythurau llywodraethu a gwneud penderfyniadau newydd; ac ymagwedd cydwasanaethau at wasanaethau digidol craidd.

- Yr Adolygiad o Bensaernïaeth Ddigidol, a roddodd sylw i gyflwr systemau digidol cenedlaethol; disgrifio sut y dylai systemau gael eu cryfhau a'u diffinio'n gliriach ac yn fwy cyson fel 'llwyfanau agored' wedi'u hadeiladu ar safonau cyffredin; ac argymell canlyniadau gwella wedi'u targedu.

7. Ym mis Medi 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn trosglwyddo i Awdurdod Iechyd Arbennig newydd.[3] Roedd y cyhoeddiad yn nodi y byddai hyn yn cael ei gefnogi gan £50 miliwn ychwanegol o gyllid a chamau gweithredu i "[g]ryfhau'r ddarpariaeth a'r cynlluniau digidol ar draws y system", gan gynnwys adolygiadau pellach i lywio cynllun seilwaith digidol, cynllun gweithlu digidol, strategaeth fasnachol ddigidol

[2] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
[3] Llywodraeth Cymru, Datganiad ysgrifenedig: diweddariad ar iechyd a gofal digidol, 30 Medi 2019

a strategaeth cyfathrebu digidol. Sefydlwyd Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi hynny ym mis Ebrill 2021.[4]

Y cynnydd hyd yma

8. Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd Archwilio Cymru Adolygiad Llywodraethu Llinell Sylfaen o Iechyd a Gofal Digidol Cymru, a ddaeth i'r casgliad a ganlyn:

> *"Yn gyffredinol, canfuom fod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran rhoi trefniadau ar waith i gefnogi llywodraethu da a'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau o dan amgylchiadau gweithredu heriol."*[5]

9. Dyma rai materion a amlygwyd yn yr adolygiad llywodraethu:

- Ymwybyddiaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru o bwysigrwydd cynnal agwedd a diwylliant ffres wrth geisio gosod ei hun fel partner digidol dibynadwy.
- Rôl arwain systemau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, yn enwedig ym maes llywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch. Mae Archwilio Cymru yn nodi'r angen am eglurder ar arweinyddiaeth ac atebolrwydd yn y meysydd hyn gyda phartneriaid Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- Mae'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22 yn nodi gweledigaeth, amcanion strategol a galluogwyr ategol Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Ond, mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu strategaeth hirdymor.
- Yr angen i Iechyd a Gofal Digidol Cymru sicrhau bod ei strategaeth, ei gynlluniau a'i raglenni'n canolbwyntio ar ofal cymdeithasol yn ogystal ag iechyd.

10. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru, yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, yn nodi nifer o gyflawniadau, gan gynnwys:

- Pontio i ganolfan ddata newydd.

[4] Mae rhagor o wybodaeth am sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'i swyddogaethau, ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
[5] Archwilio Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru: Adolygiad Llywodraethu Llinell Sylfaen, Ionawr 2022

- Parhau i gyflwyno Cofnod Gofal Nyrsio Cymru.
- Gwelliannau i Borth Clinigol Cymru.
- Rhaglen Profi Olrhain Diogelu COVID-19, system imiwneiddio GIG Cymru, a'r Pàs COVID-19.
- Ychwanegwyd sawl modiwl allweddol at Dewis Fferyllfa, ac mae system rheoli stoc Fferyllfa Ysbytai wedi'i defnyddio'n llawn ledled Cymru.
- Gwaith ar y gweill i foderneiddio meddalwedd gwybodeg canser.[6]

11. Pan holwyd Iechyd a Gofal Digidol Cymru sut yr oedd wedi mynd i'r afael â'r materion etifeddiaeth a nodwyd mewn perthynas â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, amlygodd ei statws statudol; strwythurau a threfniadau llywodraethu ac arwain newydd. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd bwrdd wedi'u ffrydio'n fyw, papurau cyhoeddedig, a phenodi aelodau bwrdd annibynnol a rolau arweinyddiaeth weithredol, gan gynnwys cyfarwyddwyr gweithredol ar gyfer strategaeth pobl a datblygiad sefydliadol. Roedd hefyd yn amlinellu ffocws ar argaeledd gwasanaethau, perfformiad, a thargedu gwelliannau a buddsoddiadau, a sefydlu grŵp dysgu ac adolygu digwyddiadau er mwyn helpu i ddatblygu a gwreiddio diwylliant o ddysgu a gwella.[7]

12. Amlygodd rhai ymatebion i'n cais am dystiolaeth ysgrifenedig enghreifftiau cadarnhaol o'u profiad o weithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, a chydnabuwyd yn gyffredinol y cynnydd a wnaed yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Roedd y manylion a amlygwyd gan randdeiliaid yn cynnwys:

- Mewnbwn Iechyd a Gofal Digidol Cymru i e-ragnodi, ac eglurder ei gynlluniau a'i allbynnau, a'i waith ar ddatblygiadau a mentrau newydd mewn fferylliaeth.[8]
- Perthynas waith gadarnhaol ac aeddfed gyda phartneriaid allweddol.[9]

Heriau

13. Bu i'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol ddisgrifio Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel yr asiantaeth sydd wedi'i hariannu orau ac sydd â'r proffil uchaf

[6] SDHCW19 Iechyd a Gofal Digidol Cymru
[7] Cofnod y Trafodion [paragraffau 10-17], 26 Hydref 2022
[8] SDHCW01 Fferylliaeth Gymunedol Cymru a SDHCW04 Cymdeithas Cwmnïau Fferyllol
[9] SDHCW20 Addysg a Gwella Iechyd Cymru, SDHCW15 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a SDHCW13 Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol

ar gyfer newid digidol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Galwodd ar i Iechyd a Gofal Digidol Cymru fod yn fodel rôl ac arwain y ffordd, ond awgrymodd fod angen iddo ddangos yn gliriach sut yr oedd yn mynd i'r afael â materion sydd wedi gwreiddio'n ddwfn, megis canfyddiadau rhanddeiliaid o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.[10] Er i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ddisgrifio'r cynnydd a wnaed gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel rhywbeth 'rhyfeddol' a'i fod yn croesawu'r newid amlwg mewn diwylliant, nododd nad oedd sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cynnwys unrhyw ymgysylltiad â sefydliadau cymheiriaid i nodi blaenoriaethau, manteision, risgiau neu broblemau.[11] Dywedodd Gofal a Thrwsio Cymru, sefydliad trydydd sector, fod cyfathrebu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn gyfyngedig.[12]

14. Rydym hefyd wedi clywed am feysydd lle mae angen cynnydd o ran atebion digidol i fynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog. Mae ystod a graddfa'r meysydd hyn, ynddo'i hun, yn her i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac yn dangos yr angen am (ac anhawster) blaenoriaethu:

- Disgrifiodd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu 'rwystredigaeth' ymhlith ei aelodau ynghylch problemau parhaus mewn perthynas â rhannu gwybodaeth ac atgyfeiriadau, a galwodd am gyflwyno system symlach ar draws byrddau iechyd yn dangos 'taith' atgyfeiriad claf rhwng y meddyg teulu a gwasanaethau arbenigol.[13]

- Galwodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru a Chymdeithas Cwmnïau Fferyllol am fwy o flaenoriaeth i gefnogi'r rhaglen Dewis Fferyllfa, sy'n caniatáu i fferyllfeydd cymunedol gadw cofnodion cleifion. Nod y rhaglen yw rhyddhau amser meddygon teulu, ond mae problemau gweithredol parhaus, gan gynnwys diffyg mynediad at lincs yn negeseuon e-bost y GIG.[14]

- Soniodd Dr Simon Barry, Meddyg Anadlol Ymgynghorol, wrthym am anawsterau wrth gysylltu rhai cronfeydd data cenedlaethol â Phorth Clinigol Cymru, a'r hyn y mae'n ei weld fel diffyg perchnogaeth a rheolaeth o ffrydiau gwaith. Tynnodd sylw, er enghraifft, at faterion yn

[10] SDHCW13 Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
[11] SDHCW11 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
[12] SDHCW09 Gofal a Thrwsio Cymru
[13] SDHCW08 Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu
[14] SDHCW01 Fferylliaeth Gymunedol Cymru a SDHCW04 Cymdeithas Cwmnïau Fferyllol

ymwneud â cheisiadau electronig am radioleg, rhagnodi electronig, a chanlyniadau ar gyfer profion cardioleg a phrofion eraill.[15]

- Clywodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod ei waith diweddar ar wasanaethau endosgopi gan yr Athro Dolwani, Arweinydd Clinigol y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol, y gofynnwyd am y newidiadau i'r system rheoli gwybodaeth sgrinio'r coluddyn ddeng mlynedd yn ôl, ac nid yw hynny wedi digwydd eto. Ychwanegodd fod 'tagfeydd' yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cyfrannu at oedi wrth weithredu llwybr atgyfeirio safonol ar gyfer endosgopi yng Nghymru.[16]

Ein barn ni

15. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn sefydliad newydd o hyd. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i roi strwythurau newydd ar waith, ac rydym yn cymeradwyo'r cynnydd sydd wedi'i wneud. Mae'n amlwg y bu rhai llwyddiannau gwirioneddol: er enghraifft gostyngiad mewn toriadau TGCh a gweithredu systemau gwybodaeth canser newydd.

16. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gyfrifol am brosiectau lluosog, mae ganddo rôl darparwr gwybodaeth allweddol, a rhaid iddo reoli a gweithio gydag ystod amrywiol o randdeiliaid (y mae eu capasiti a'u cydweithrediad eu hunain yn ddibyniaeth hanfodol ar allu Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gyflawni). Rhaid iddo ddangos arweiniad ar lefel genedlaethol a lleol, a galluogi a hwyluso eraill.

17. Nid ydym yn diystyru pa mor heriol yw'r rôl hon. Fodd bynnag, os na chaiff yr heriau hyn eu cyflawni, mae canlyniadau i wasanaethau, clinigwyr a chleifion. Fel y nododd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 10 Mawrth 2023:

> *"Rydym yn deall bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ymdrin â nifer o geisiadau o bob rhan o'r GIG lle mae angen newidiadau i system wybodeg Cymru gyfan, ond roedd yn destun pryder clywed y gallai oedi yn y rhan hon o'r system olygu cryn oedi cyn rhoi'r gwelliannau angenrheidiol i wasanaethau ar waith."*[17]

[15] SDHCW02 Dr Simon Barry
[16] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion [paragraff 352], 2 Chwefror 2023
[17] Llythyr gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 10 Mawrth 2023

18. Rydym am i Iechyd a Gofal Digidol Cymru fod yn dryloyw ynghylch yr heriau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni ei gylch gwaith. Rydym yn cymeradwyo uchelgais a phositifrwydd, ac rydym am weld hyblygrwydd, creadigrwydd, arloesedd ac awydd i lwyddo; ond rydym yn rhybuddio rhag gor-optimistiaeth a ffocws ar ddathlu llwyddiannau ar draul asesu'n realistig yr hyn sydd angen ei gyflawni a sut mae angen blaenoriaethu'r agenda waith.

19. Nid yw'n glir inni eto pwy sy'n penderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru, na sut mae'r prosiectau lluosog y mae'n gyfrifol amdanynt yn cael eu trefnu o ran pwysigrwydd neu frys. Nid ydym ychwaith wedi ein sicrhau eto o'r dystiolaeth a welsom am ddigonolrwydd y wybodaeth am amserlenni, cerrig milltir a chynnydd ar brosiectau mawr Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am eu rolau priodol wrth bennu blaenoriaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chyflawni prosiectau mawr. Dylai hyn gynnwys:

- Sut mae Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd iddi ei hun bod blaenoriaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru ac yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni.
- Sut y gwneir penderfyniadau ar flaenoriaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, gan gynnwys pryd a chan bwy.
- Sut mae Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r tîm gweithredol yn monitro cynnydd ar brosiectau mawr, gan gynnwys a yw amserlenni a cherrig milltir allweddol yn cael eu cyflawni.
- Pa rôl, os o gwbl, fydd yn cael ei chwarae gan Weithrediaeth GIG Cymru.

3. System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

Y cefndir

20. Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) wedi'i datblygu fel un system a chofnod electronig a rennir sydd i'w defnyddio ar draws ystod

eang o wasanaethau oedolion a phlant.[18] Y bwriad oedd y byddai pob un o'r 22 o awdurdodau lleol a'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru yn ei rhoi ar waith.

21. Ym mis Gorffennaf 2022, ysgrifennodd Archwilio Cymru at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i roi diweddariad ar gyflawni WCCIS.[19] Roedd y llythyr yn nodi bod Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad ym mis Hydref 2020 fod:

> *"...manteision posibl cofnod electronig a rennir ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn glir i'w gweld [...]. Fodd bynnag, roedd gweledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer WCCIS yn dal i fod ymhell o gael ei gwireddu".*

22. Roedd y llythyr hefyd yn tynnu sylw at yr amharodrwydd sy'n dod i'r amlwg ymhlith rhai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i ymuno â WCCIS. Nododd adroddiad Archwilio Cymru ar WCCIS[20], a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020, fod 19 o sefydliadau'n defnyddio WCCIS neu wedi llofnodi gorchmynion defnyddio, gyda phedwar wrthi'n cael eu negodi a chwech heb ymrwymo eto.

23. Roedd y llythyr yn nodi fel a ganlyn:

> *"O'r 19 sefydliad, roedd 13 awdurdod lleol a dau fwrdd iechyd wedi mynd yn fyw. Fodd bynnag, roedd 'byw' yn golygu gwahanol bethau. Roedd gwahaniaethau yn y ffordd yr oedd sefydliadau'n dewis defnyddio WCCIS yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer gweithio integredig ac roedd yn codi materion eraill yn ymwneud â gwerth am arian".*

24. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i lywio ein gwaith craffu, disgrifiodd Archwilio Cymru raglen WCCIS ar "gam allweddol", a rhoddodd grynodeb o'r materion allweddol a nodwyd yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2022:

> *"Ymhlith pethau eraill, roedd [adroddiad Archwilio Cymru] yn pwysleisio, "yn dilyn diagnosis sylweddol o'r anawsterau sydd wedi effeithio ar raglen WCCIS, mae angen arweinyddiaeth gref yn awr i*

[18] Mae WCCIS yn system 'wynebu'r clinigwr'. Mae ap Gig Cymru 'wynebu'r claf' hefyd yn cael ei ddatblygu. Rydym yn trafod hyn ymhellach ym mhennod 4 yr adroddiad hwn.
[19] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Gorffennaf 2022
[20] System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, Adroddiad Archwilio Cymru, Hydref 2022

> *sicrhau gwerth am arian o'r buddsoddiad o £30 miliwn hyd yma a gwariant yn y dyfodol ac i benderfynu ar ddyfodol cyffredinol y rhaglen mewn partneriaeth â'r sefydliadau hynny sy'n defnyddio'r system ar hyn o bryd a'r rhai nad ydynt. Fel rhan o hyn, bydd angen penderfyniad ar y strategaeth gontractio yn y dyfodol ac a ddylid cadw'r ymrwymiad i ateb un system neu ganiatáu ar gyfer gwahanol systemau 'rhyngweithredol' gan ddefnyddio'r un safonau a sicrhau bod datblygu'r safonau hynny'n symud yn gyflymach nag sydd ganddo hyd yma".*[21]

25. Ym mis Hydref 2022, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Cyfarfod Llawn fod Llywodraeth Cymru wedi gwario £30 miliwn ar WCCIS hyd yma, a'i bod yn bwriadu gwario £12 miliwn arall dros y tair blynedd nesaf. Ychwanegodd:

> *"Ac mae hyn yn mynd i integreiddio gwasanaethau cymdeithasol a data iechyd cymunedol, fel y gallant rannu cofnodion electronig ar gyfer iechyd a gofal, er mwyn inni allu cael y systemau i siarad â'i gilydd".*[22]

26. Roedd gohebiaeth ddilynol gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ym mis Ionawr 2023 yn rhoi dadansoddiad o'r cyllid hwn ac yn rhagweld gwariant 2022-25.[23]

27. Ym mis Hydref 2022, gwnaethom holi Iechyd a Gofal Digidol Cymru ynghylch a oedd y gwariant ar WCCIS hyd yma, a'r cyllid pellach a ddyrannwyd iddi, yn cynrychioli gwerth am arian. Cawsom wybod y canlynol:

> *"...that's quite a tricky question to answer in terms of the quantification of the benefits. I think the whole investment has been around the integration agenda, to support that big service change that needs to happen"*[24]

28. O ystyried pryderon ynghylch y nifer sy'n manteisio ar WCCIS, gwnaethom ofyn a oedd datrysiad system sengl yn dal yn hyfyw neu a oes angen i Iechyd a

[21] SDHCW12 Archwilio Cymru
[22] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 346], 12 Hydref 2022.
[23] Llythyr gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus , 13 Ionawr 2023
[24] Cofnod y Trafodion [paragraff 145], 26 Hydref 2022

Gofal Digidol Cymru chwilio am ateb gwahanol. Yn ystod y sesiwn, dywedodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru:

> *"I think it is a viable model. I think that there is a lot of benefit to be gained from adopting and using that system, particularly at a regional footprint, to share across the health and care boundaries and the different sectors. Where that happens, you see staff on the ground experiencing the support and the sharing of that information".*[25]

> *"I think, in terms of WCCIS, clearly we host the programme and support the joint senior responsible officers in terms of the delivery. I think it's really worth recognising that it's an ambitious thing that Wales is trying to do here; it's trying to integrate across the health and social care sectors to join up that information. It hasn't been done in the way that we've been trying to do that at a national level before. It's the right thing to do and, where it's been successful—and it is implemented in 17 organisations—it is really driving that benefit."*[26]

29. Dywedodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru wrthym, er bod gwaith i'w wneud i ddeall yn iawn beth yw'r cyfeiriad i Gymru yn y dyfodol, roedd WCCIS yn gallu gwasanaethu'r swyddogaethau a'r rôl y'i prynwyd i'w gwneud.[27] Ychwanegodd fod llwyfan digidol WCCIS yn fyw mewn 19 allan o 29 o sefydliadau.[28]

30. Cydnabu Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ystod y sesiwn dystiolaeth y bu heriau. Eglurodd, yn dilyn adolygiad strategol, fod y rhaglen wedi'i hailosod a'i bod yn cynyddu ei ffocws ar ymgysylltu.[29]

31. Dywedodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru:

> *"I think part of the challenge for WCCIS is I think there was a perception that having a programme that was going to give you a*

[25] Cofnod y Trafodion [paragraff 127], 26 Hydref 2022
[26] Cofnod y Trafodion [paragraff 146], 26 Hydref 2022
[27] Cofnod y Trafodion [paragraff 169], 26 Hydref 2022
[28] Llythyr gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus , 13 Ionawr 2023
[29] Cofnod y Trafodion [paragraff 148], 26 Hydref 2022

> *system to allow integration was going to deliver service integration. And I think actually some of that has been confused in terms of what it's trying to achieve. That was one of the recommendations of the strategic review—being really clear about the scope that the programme is trying to achieve, and, actually, 'Let's go at that and deliver that and support how we can get that information shared'. I acknowledge that there will be organisations that will have no intention, and they've already publicly voiced that no intention. We need to work with those organisations and those regions, which the teams are doing through the national programme team, to understand how we need to progress that conversation moving on."*[30]

32. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gawsom gan fyrddau iechyd ym mis Ionawr 2023 yn awgrymu bod y darlun yn fwy cynnil, sy'n atgyfnerthu'r darlun a amlinellwyd yn adroddiad Archwilio Cymru ar WCCIS, a gyhoeddwyd yn 2022. Mae gwahanol lefelau a graddau o gyflwyno a chynnydd ymhlith y sefydliadau sydd wedi penderfynu defnyddio WCCIS, ac mae'n amlwg nad oes gan rai byrddau iechyd unrhyw fwriad i'w defnyddio.[31] Erys yr her hefyd o sicrhau cysylltiadau effeithiol ac eang ag awdurdodau lleol a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

33. Pan ofynnwyd ym mis Hydref 2022 pwy oedd yn gyfrifol am gymell pobl i ymgymryd â WCCIS, dywedodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru:

> *"So, I think that's a collective responsibility. I don't think it is a wholly DHCW responsibility. Clearly, there are SROs who lead on that programme. It's an action in 'A Healthier Wales' to adopt WCCIS. So, I think it's a collective responsibility."*[32]

34. Ym mis Gorffennaf 2022, ysgrifennodd Archwilydd Cyffredinol Cymru at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i dynnu sylw at y ffaith bod materion yn ymwneud â'r strategaeth gontractio ar gyfer WCCIS yn dod yn fwyfwy dybryd o ystyried dyddiadau terfyn cytundebol ar gyfer cyrff unigol.[33] Mewn tystiolaeth ysgrifenedig ym mis Ionawr 2023, amlinellodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru broffil yr amserlenni ar gyfer amserlenni cytundebol y gorchymyn

[30] Cofnod y Trafodion [paragraff 183], 26 Hydref 2022
[31] Gweler yr ohebiaeth gan fyrddau iechyd a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023
[32] Cofnod y Trafodion [paragraff 229], 26 Hydref 2022
[33] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Gorffennaf 2022

defnyddio ar gyfer pob bwrdd iechyd.[34] Roedd hyn yn dangos bod y sefydliadau sy'n defnyddio'r system ar hyn o bryd wedi symud ymlaen iddi ar adegau gwahanol, sy'n golygu y bydd eu gorchmynion defnyddio hefyd yn dod i ben ar adegau gwahanol. Gellir ymestyn y contractau hyn am hyd at bedair blynedd, er y disgwylir i nifer o gontractau ddod i ben mor gynnar â mis Mawrth 2024. Ychwanegodd y dystiolaeth ysgrifenedig y byddai 'Adolygiad Strategol' i ddiffinio'r strategaeth contract a thechnoleg yn y dyfodol yn adrodd erbyn mis Mawrth 2023.[35] Nid yw'n glir inni a yw'r Adolygiad Strategol hwn yr un adolygiad y cyfeiriodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ato yn ystod y sesiwn dystiolaeth sydd eisoes wedi arwain at ailosod rhaglen.[36]

Ein barn ni

35. Rydym yn deall cymhlethdod a maint rhaglen WCCIS, ond rydym yn parhau i bryderu ynghylch rhai agweddau allweddol, gan gynnwys:

- Diffyg cynllun prosiect cryno ond manwl sy'n amlinellu amserlenni allweddol, blaenoriaethau a'r pethhau i'w cyflawni, ac sy'n nodi risgiau a heriau, a'r camau sydd i'w cymryd i'w rheoli a'u gweithredu.
- Arafwch y cynnydd.
- Cwmpas cyfyngedig y cyflwyniad mewn rhai ardaloedd byrddau iechyd; er enghraifft ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg dim ond ym maes iechyd meddwl y disgwylir i WCCIS gael ei chyflwyno i ddechrau.
- Soniodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda am rwystrau sylweddol o ran integreiddio a chysylltedd sy'n effeithio ar y defnydd o WCCIS ym maes nyrsio cymunedol.
- Amrywiadau sylweddol yn amseriad contractau'n dod i ben.
- Diffyg eglurder ynghylch yr hyn y bydd WCCIS yn ei gyflawni o ran gwireddu buddion yn gyfnewid am y £12 miliwn o wariant ychwanegol arfaethedig yn y tair blynedd nesaf ac a yw'r dull hyd yma yn cynrychioli gwerth am arian.

[34] Llythyr gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus , 13 Ionawr 2023
[35] Llythyr gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus , 13 Ionawr 2023
[36] Cofnod y Trafodion [paragraff 148], 26 Hydref 2022

36. Bu cryn hyblygrwydd lleol o ran defnyddio a chyflwyno WCCIS, ac mae hyn yn wir o hyd. Gallai hyn fod yn gryfder, gan alluogi'r llwyfan a'i ddefnydd i gael eu teilwra i anghenion ac amgylchiadau lleol. Fodd bynnag, gall diffyg rôl 'gyfarwyddeb' ganolog hefyd fod yn rhwystr i sicrhau cysondeb, a gwireddu manteision posibl y system yn llawn. Nid yw'n glir inni pwy sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod y system, a'r manteision, yn cael eu darparu ar sail gyson, Cymru gyfan.

37. Yn yr un modd, rydym yn pryderu ynghylch y diffyg eglurder o ran pwy sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth ar WCCIS. Nid yw'r cydgyfrifoldeb dros arweinyddiaeth y cyfeiriwyd ato yn ystod tystiolaeth yn rhoi digon o sicrwydd inni fod y cyfrifoldeb dros arwain y system flaenllaw hon yn cael ei flaenoriaethu'n ddigonol. Nid yw'n glir pwy sy'n gyfrifol am y defnydd o'r system. Lle gwrthodwyd y defnydd, nid ydym yn glir ynghylch y rhesymau am hyn, pa effaith a gaiff, a sut yr ymdrinnir ag unrhyw faterion sy'n codi o'r gwrthodiad.

38. Rydym hefyd yn pryderu a yw'n debygol y bydd, neu a fu, newidiadau mewn cyfrifoldebau ar gyfer arwain rhaglen WCCIS. Rydym yn ymwybodol bod Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn un o ddau Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer y rhaglen ac maent wedi ymgymryd â rôl Prif Weithredwr dros dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ddiweddar.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru nodi pwy sy'n gyfrifol am arwain rhaglen System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am Uwch-swyddogion Cyfrifol y rhaglen. Os yw Prif Weithredwr interim Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau fel Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer rhaglen WCCIS, dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu asesiad i weld a yw'n realistig i un unigolyn ymgymryd â'r ddwy rôl ar yr un pryd, a gwybodaeth am unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd i liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r rolau sy'n cael eu cyflawni ar yr un pryd.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi diweddariadau chwe misol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar y cynnydd o ran darparu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Dylai'r diweddariadau gynnwys gwybodaeth am wariant hyd yma, y gwariant sydd wedi'i gynllunio, y defnydd o WCCIS ymhlith byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, ymgysylltiad neu ymgynghoriad â phartneriaid perthnasol. Dylid darparu'r diweddariad cyntaf yn yr ymatebion i'r adroddiad hwn.

Argymhelliad 4. Yn eu hymatebion i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi diweddariad ar ganlyniad adolygiad o strategaeth gontractio WCCIS a oedd i adrodd erbyn mis Mawrth 2023.

4. Mynediad cleifion at gofnodion

Y cefndir

39. Ers 2015, mae gan Lywodraeth Cymru nod strategol i sicrhau bod data a chofnodion meddygol cleifion ar gael iddynt drwy'r hyn a elwid ar y pryd yn 'borth dinasyddion ar-lein'.[37] Fodd bynnag, nid yw'n glir beth yw'r sefyllfa bresennol o ran yr amcan hwn.

Ap GIG Cymru

40. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn rheoli'r rhaglen Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd, sy'n datblygu Ap GIG Cymru.[38] Ei nod yw darparu adnodd i bobl gael mynediad haws at wasanaethau GIG Cymru a gwybodaeth iechyd a gofal. Mae mewnbwn cleifion i'r Ap wedi bod drwy'r Grŵp Sicrwydd Cleifion a'r Cyhoedd a'r Cyngor Dylunio Defnyddwyr.

41. Y bwriad yw dechrau gyda mynediad cleifion at eu cofnod gofal cryno, fel y caiff ei godio a'i gadw yn y system gofal sylfaenol. I ddechrau, bydd yr Ap yn cael ei brofi gyda 1,000 o bobl, cyn trosglwyddo i gyfnod beta cyhoeddus yng ngwanwyn 2023 a'i gyflwyno'n llawn yn ddiweddarach yn 2023.[39]

42. Rhoddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y wybodaeth ddiweddaraf am yr Ap drwy ddatganiad ysgrifenedig ar 17 Ebrill 2023. Nododd y datganiad fod yr ap wedi cael profion beta preifat llwyddiannus, gan gynnwys 700 o bobl o 10 practis meddygon teulu ledled Cymru, ac roedd yn cael ei gyflwyno ar gyfer profion cyhoeddus ehangach.[40]

43. Roedd y datganiad yn tynnu sylw at y canlynol:

[37] Llywodraeth Cymru, Strategaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol digidol, Rhagfyr 2015
[38] Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd (fel ym mis Mawrth 2023)
[39] Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Ap newydd GIG Cymru, 17 Ebrill 2023
[40] Datganiad Llafar gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Lansio Ap y GIG, 9 Mai 2023

> *"Nid yw Ap GIG Cymru ar gyfer gofal sylfaenol yn unig, rydym yn datblygu swyddogaethau er mwyn helpu pobl i reoli gofal a gynlluniwyd ac ar gyfer lleoliadau iechyd eraill. Hoffem i'r ap fod yn un drws digidol sy'n eich arwain at bob gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol".*

44. Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad pellach mewn datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 9 Mai, gan nodi'r canlynol:

> *"Erbyn heddiw, gall tua 97,000 o gleifion sydd wedi'u cofrestru yn y meddygfeydd ac sydd wedi troi'r ap ymlaen gael mynediad at eu cofnod iechyd cryno, gan roi golwg iddynt ar eu hanes iechyd, archebu presgripsiynau rheolaidd a gweld hen bresgripsiynau gan feddygon teulu, a threfnu, gweld a chanslo apwyntiadau penodol gyda staff practisau."*[41]

Ein barn ni

45. Rydym yn nodi bod gan GIG Lloegr gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer cyflwyno ei Ap ymhellach.[42] Er bod angen mwy o gydgysylltu rhwng gwasanaethau meddygon teulu ac ysbytai o hyd, mae bob practis meddyg teulu yn Lloegr eisoes wedi'u cysylltu ag Ap y GIG. Mae cleifion yn gallu ei ddefnyddio ar gyfer ystod o swyddogaethau, gan gynnwys archebu presgripsiynau rheolaidd, a gweld eu cofnodion meddyg teulu a rhai canlyniadau profion ar-lein.[43]

46. Gobeithiwn y bydd Ap GIG Cymru yn darparu ffordd ddiogel a chydgysylltiedig i bobl yng Nghymru gael mynediad at gofnodion a gedwir am eu hiechyd a'u gofal, a'u galluogi i gael mynediad at wasanaethau priodol pan fo angen. Mae hefyd yn cyflwyno cyfleoedd i wella cymorth ar gyfer hunanreolaeth cleifion. Rydym yn croesawu'r cynnydd a gyflawnwyd hyd yma a'r uchelgais i ehangu cwmpas a defnydd yr Ap ymhellach. Ar yr un pryd, mae angen inni gydnabod maint y dasg a'r heriau sydd ynghlwm wrth gyflawni hyn. Mae angen i waith cynllunio, arweinyddiaeth a chydweithredu cadarn a realistig gyfateb i'r uchelgais, yn ogystal ag ymdeimlad clir o leoliad y gwaith hwn o fewn blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

---

[41] Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn, [paragraff 100], 9 Mai 2023
[42] Llywodraeth y DU, Papur polisi: Cynllun ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol digidol (Saesneg yn unig), 29 Mehefin 2022
[43] GIG Digidol, Nodweddion Ap y GIG (Saesneg yn unig) [fel ym mis Mai 2023]

47. Os yw Ap GIG Cymru am gyflawni ei ddiben, rhaid i'r trefniadau deddfwriaethol, polisi a llywodraethu cywir fod ar waith hefyd. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod gan y cyhoedd hyder yn yr Ap, gan gynnwys diogelwch eu cofnodion a sut y gellir defnyddio eu gwybodaeth, a bod yr hyder hwn yn parhau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y mesurau diogelu cywir ar waith o ran categoreiddio a grwpio cleifion, yn ogystal â strwythurau priodol i gefnogi unrhyw gynnydd arfaethedig mewn mynediad at ddata cleifion. Mae hefyd yn cynnwys sicrhau bod trefniadau addas ar waith i alluogi cleifion i 'optio allan' o'r Ap, os ydynt am wneud hynny.

48. Mae cyfathrebu clir ac effeithiol hefyd yn hanfodol i annog pobl i ddefnyddio'r Ap, yn ogystal â chydnabod y gallai mynediad fod yn fwy anodd i bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.[44] Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif yn 2019 y gall hyn fod yn tua 11 y cant o boblogaeth Cymru yn gyffredinol.[45] Ym mis Mawrth 2023, roedd adroddiad gan Archwilio Cymru yn amcangyfrif bod tua 32 y cant o'r boblogaeth 75 oed neu'n hŷn wedi'u hallgáu'n ddigidol, o'i gymharu â thua 7 y cant o'r boblogaeth sy'n 16 oed neu'n hŷn.[46]

Argymhelliad 5. Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu amserlen ar gyfer cyflwyno Ap GIG Cymru ymhellach, gan gynnwys targedau allweddol, canlyniadau, amserlenni a dibyniaethau. Dylai'r amserlen roi darlun clir o flaenoriaethau a chynlluniau, a galluogi monitro cynnydd. Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus cyn diwedd 2023 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn erbyn yr amserlen.

Argymhelliad 6. Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddatblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer darparu gwybodaeth glir a hygyrch am sut i ddefnyddio'r Ap. Dylid anelu at annog pobl ledled Cymru i ddefnyddio Ap GIG Cymru, a sicrhau bod gan bobl hyder i'w ddefnyddio. Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus cyn diwedd 2023 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer y bobl sy'n defnyddio'r Ap.

Argymhelliad 7. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi manylion am sut y bydd datblygu a chyflwyno Ap GIG Cymru yn

[44] The King's Fund, Moving from exclusion to inclusion in digital health and care, (Saesneg yn unig), 8 Mawrth 2023
[45] Iechyd Cyhoeddus Cymru, Canllawiau cynhwysiant digidol ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru, Gorffennaf 2019
[46] Cynhwysiant Digidol yng Nghymru, Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mawrth 2023, Arddangosyn 4

cydnabod ac yn mynd i'r afael â heriau allgáu digidol ar gyfer gwahanol grwpiau o'r boblogaeth. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut y bydd yr Ap yn cael ei hyrwyddo, y sianeli cyfathrebu digidol ac nad ydynt yn ddigidol a fydd yn cael eu defnyddio i'w hyrwyddo, a sut y bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn sicrhau nad yw cyfathrebiadau digidol-yn-unig yn cael eu defnyddio'n ddiofyn.

Argymhelliad 8. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru amlinellu'r trefniadau llywodraethu a diogelu data sydd ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflwyno a gweithredu Ap GIG Cymru.

5. Gofal cymdeithasol

Y cefndir

49. Thema allweddol yn 'Cymru Iachach'[47] yw integreiddio cynyddol o ran gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Adlewyrchir hyn yn Adolygiad Llywodraethu Llinell Sylfaen Archwilio Cymru o Iechyd a Gofal Digidol Cymru, sy'n amlygu'r angen iddo sicrhau bod ei strategaeth, ei gynlluniau a'i raglenni'n canolbwyntio ar ofal, yn ogystal ag iechyd.[48]

50. Mewn tystiolaeth lafar, amlinellodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ei rôl mewn perthynas â gofal cymdeithasol, a sut mae'n gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar hyn o bryd:

> *"Yes. In our set-up, I mean 'Digital Health and Care Wales', the 'and care' is about us supporting in partnership, so our remit is not to provide services directly into local authorities, because it's their remit to provide those digital services for their areas of responsibility. What we can do is support through partnership and collaboration and joint working. Through Social Care Wales, we've got a memorandum of understanding with them, and we're doing a lot of work—actually picking up on Mike's point earlier around data and data being king; […]—but actually, a lot of work, and they're a pivotal part of the national data resource programme, so how we can join up the data and support them in doing that. We also have joint responsibility on service management for things like WCCIS, where there are leads*

[47] Llywodraeth Cymru, Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, diweddarwyd ym mis Tachwedd 2022
[48] Archwilio Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru: Adolygiad Llywodraethu Llinell Sylfaen, Ionawr 2022

> *from local authorities and health sat around the table to ensure that we're optimising operations. So, quite a lot going on without us having any direct responsibility."*[49]

51. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gawsom gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn nodi:

> *"...er ein bod yn croesawu'r rôl arweinyddol mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ei dangos ar sawl dull a rennir ar draws y gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd, er enghraifft: yr Adnodd Data Cenedlaethol a'r System Gofal Cymunedol a Gwybodaeth Gymraeg, nid oes ganddynt gapasiti i gefnogi sefydliadau gofal cymdeithasol yn llawn yng Nghymru y tu allan i'r mentrau hyn a rennir".*[50]

Ein barn ni

52. Mae'n amlwg bod y rhan fwyaf o amser, egni a ffocws Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar iechyd. Rydym yn deall y rhesymau am hyn, fodd bynnag, yn unol â'r agenda integreiddio, ac os ydym am weld gwelliannau o ran agweddau digidol ym maes gofal cymdeithasol, yna mae angen inni weld mwy o ffocws gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar yr agweddau gofal cymdeithasol ar ei waith.

53. Byddem yn gwerthfawrogi cael rhagor o wybodaeth am sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cyflawni ei rôl mewn perthynas â'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys yr hyn sy'n cael ei wneud mewn meysydd â blaenoriaeth fel seiberddiogelwch, yn ogystal â meysydd eraill lle gallai Iechyd a Gofal Digidol Cymru gynnig i ddarparwyr y trydydd sector a'r sector preifat arbenigedd ac arweiniad, dysgu a rennir, a helpu i ledaenu arfer da.

54. Rydym yn croesawu rôl newydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, a'r cyfleoedd y mae'n eu darparu i feithrin cysylltiadau agosach â chydweithwyr gofal cymdeithasol mewn llywodraeth leol a'r trydydd sector. Ond, rhaid aros i weld a fydd gan y rôl hon yn unig y capasiti a'r effaith angenrheidiol. Nid yw'n glir ychwaith pa rôl fydd gan y Cyfarwyddwr newydd mewn perthynas ag ymgysylltu â darparwyr gofal cymdeithasol preifat, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol neu'r Cyngor

[49] Cofnod y Trafodion [paragraff 272], 26 Hydref 2022
[50] SDHCW16 Gofal Cymdeithasol Cymru

Partneriaeth Gymdeithasol sydd i'w sefydlu yn sgil Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

Argymhelliad 9. Erbyn diwedd 2023 dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru gyhoeddi cynllun clir, realistig wedi'i flaenoriaethu ar gyfer cynyddu ei ymgysylltiad â'r sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys darparwyr yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Dylid datblygu'r cynllun drwy ymgysylltu â'r sector gofal cymdeithasol, a dylai gynnwys amserlenni clir ac asesiad o'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer ei gyflawni. Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu copi o'r cynllun i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, a darparu diweddariad chwe misol ar gynnydd yn erbyn y cynllun.

6. Y gweithlu

Gweithlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru

55. Dywedodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru wrthym fod angen i GIG Cymru gael gweithlu cryf, hyblyg a medrus er mwyn cyflawni trawsnewid digidol.[51]

56. Ond, rydym wedi clywed pryderon ynghylch capasiti Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gefnogi'r agenda drawsnewid. Er enghraifft, dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wrthym:

> *"Like local organisations the less apparent areas in DHCW can often be under strain as new programmes of work emerge, more demands are placed on teams and systems".*[52]

57. Yn ystod sesiwn tystiolaeth lafar eglurodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru rai o'r camau y mae'n eu cymryd i ddatblygu ei weithlu drwy ei dîm newid busnes cenedlaethol, ond nododd nad oes digon yn cael ei fuddsoddi mewn newid busnes. Clywsom fel a ganlyn:

> *"We've implemented a national change network, which is a structured development programme, recognising that we can't have*

[51] SDHCW19 Iechyd a Gofal Digidol Cymru
[52] SDHCW11 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

> *loads of business-change resources; we want to skill up everyone to actually have those change skills to support the local teams".*[53]

58. Eglurodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ei fod wedi cymeradwyo ei strategaeth Pobl a Datblygiad Sefydliadol yn ddiweddar i sicrhau ei fod yn recriwtio ac yn cadw staff sydd â galluoedd digonol.[54] Cafodd copi o'r strategaeth ei rannu gyda ni. Mewn gohebiaeth ysgrifenedig dywedodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ei fod wedi gwneud cynnydd da o ran recriwtio staff er bod marchnad gystadleuol iawn ar gyfer sgiliau digidol a thechnegol ar draws y DU, a'i allu cyfyngedig fel cyflogwr GIG i gystadlu ar gyflog a phecynnau buddion ehangach.[55]

59. Roedd y llythyr hefyd yn nodi bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cynyddu nifer ei staff o 675 yn 2019 i 969 ym mis Mawrth 2022 a bod lefelau cadw a throsiant staff tua thraean o gyfartaledd y diwydiant. Yn ystod sesiwn tystiolaeth lafar clywsom fod y cynnydd hwn yng ngweithlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru tua 43 y cant ers i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y Bumed Senedd edrych ar ei ragflaenydd, sef Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Nid oedd yn glir inni pa sgiliau neu adrannau o fewn Iechyd a Gofal Digidol Cymru sydd wedi'u blaenoriaethu yn y cynnydd staffio.

60. Roedd tystion yn cydnabod y canlynol:

> *"There's more that we need to do, but we also recognise that we can't recruit to all of these things, and we can't recruit at the pace that we need to, so we've also got a strategic resourcing group in the organisation, which is looking at how we balance the training and development and opportunities that we need, growing our own and attracting in that way, but also how we partner with commercial partners to actually supplement the organisation".*[56]

Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ehangach

61. Clywsom hefyd y gallai sgiliau a chapasiti digidol mewn sefydliadau partner a rhanddeiliaid fod yn ffactor sy'n cyfyngu ar y gwaith o ddarparu rhaglenni

[53] Cofnod y Trafodion [paragraff 276], 26 Hydref 2022
[54] Cofnod y Trafodion [paragraff 236], 26 Hydref 2022
[55] Llythyr gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus , 13 Ionawr 2023
[56] Cofnod y Trafodion [paragraff 239], 26 Hydref 2022

Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Roedd y materion a godwyd yn cynnwys y canlynol: capasiti cyfyngedig ar gyfer rhaglenni newid o fewn llawer o sefydliadau'r sector cyhoeddus;[57] anawsterau wrth lenwi swyddi gwag ar gyfer rolau digidol;[58] a hyblygrwydd cyfyngedig yn y telerau ac amodau y gall cyrff y GIG eu cynnig o fewn cyd-destun fframwaith yr Agenda ar gyfer Newid.[59]

62. Tynnodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru sylw at yr ymrwymiad yn ei strategaeth gweithlu ar y cyd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu sgiliau digidol, yn ogystal â rôl staff clinigol wrth ddarparu rhaglenni a gwasanaethau digidol yn llwyddiannus.[60] Awgrymwyd y gallai sgiliau a chapasiti fod yn broblem benodol yn y trydydd sector a'r sector gofal cymdeithasol, o ganlyniad i nifer ac ystod y sefydliadau dan sylw.[61]

63. Mae Archwilio Cymru wedi nodi ei fod yn bwriadu gwneud gwaith ar drefniadau cynllunio gweithlu GIG Cymru. Bydd yn ystyried sut mae gweithgareddau cynllunio gweithlu lleol a chenedlaethol yn cael eu datblygu i reoli risgiau a mynd i'r afael ag anghenion gweithlu yn y tymor byr, canolig a hwy.[62]

64. Disgrifiodd y Ganolfan Sgiliau Cyhoeddus Digidol faterion yn ymwneud â'r gweithlu a'r sgiliau sydd ar gael fel her allweddol i bob sefydliad sy'n ceisio cyflawni newid digidol ledled Cymru. Ychwanegodd y gallai Iechyd a Gofal Digidol Cymru gydweithio'n fwy â rhanddeiliaid a phartneriaid yn y gymuned ddigidol, er enghraifft drwy 'gymunedau ymarfer' i ddod â phobl sydd â'r sgiliau cywir ynghyd neu weithio ar faterion tebyg y gallai helpu i fynd i'r afael â phroblemau a sicrhau gwerth am arian.[63] Mae hyn yn adlewyrchu argymhelliad canolog a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei adroddiad yn 2018 ar Systemau Gwybodeg GIG Cymru:

> *"Argymhelliad 5: Rydym yn argymell bod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn ceisio cynyddu ei waith gyda chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys y rhai o Lywodraeth y DU".*[64]

[57] SDHCW13 Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
[58] SDHCW15 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
[59] SDHCW11 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
[60] SDHCW20 Addysg a Gwella Iechyd Cymru
[61] SDHCW09 Gofal a Thrwsio Cymru a SDHCW16 Gofal Cymdeithasol Cymru
[62] SDHCW12 Archwilio Cymru
[63] SDHCW13 Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
[64] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Systemau Gwybodeg GIG Cymru, Tachwedd 2018

65. Yn ystod y sesiwn tystiolaeth lafar, gwnaethom holi Iechyd a Gofal Digidol Cymru ynghylch ei rôl o ran cefnogi pobl drwy hyfforddiant a meithrin eu hyder. Disgrifiodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru hyn fel cyfrifoldeb ar y cyd gyda sefydliadau lleol. Yn ogystal â gwaith ei dîm newid busnes cenedlaethol, amlygodd y gwaith o ddatblygu cymhwyster newid busnes achrededig cenedlaethol:

> *"We've implemented a national change network, which is a structured development programme, recognising that we can't have loads of business-change resources; we want to skill up everyone to actually have those change skills to support the local teams. We've got our second cohort going through that now. It's an accredited qualification that we've worked with the Wales Institute of Digital Information on as well, so you can—. It's a qualification on its own, but it can be part of a certification or a broader credit towards a degree qualification as well. So, we're recognising that and trying to support all we can to have those business-change skills out there in local communities."*[65]

Seiberddiogelwch

66. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn tynnu sylw at seiberddiogelwch fel maes allweddol o ran her. Mae'n tynnu sylw at ddigideiddio cyflym gwasanaethau yn ystod y pandemig, ac yn nodi bod ganddo rôl genedlaethol o ran diogelu'r rhwydwaith a data ar draws GIG Cymru, yn ogystal â chynnal Uned Seibergadernid GIG Cymru. Ychwanegodd, fodd bynnag, fod denu staff digidol a thechnegol medrus yn parhau i fod yn heriol.[66]

67. Yn ystod y sesiwn, disgrifiodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru godi ymwybyddiaeth o seiberddiogelwch ar draws GIG Cymru fel maes ffocws allweddol, ond nododd risgiau o ran cael y staff a'r adnoddau cywir ar waith.[67] Dywedodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru wrthym fod Uned Seibergadernid GIG Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys pedwar unigolyn. Pan ofynnwyd a oedd hyn yn ddigonol, dywedodd:

> *"It's not about size, it's about capability and, really, what's important there is that cyber skills, as you can imagine, are very valuable at the*

[65] Cofnod y Trafodion [paragraff 276], 26 Hydref 2022
[66] SDHCW19 Iechyd a Gofal Digidol Cymru
[67] Cofnod y Trafodion [paragraffau 54-58], 26 Hydref 2022

> *moment. So, the challenge for us is to develop that competency and specialism, and that's what we've done. We need to balance that, actually, with external support where we need it, but, really, it's about developing the capability to understand the cyber threat and respond appropriately."*[68]

68. Ychwanegodd y byddai'r garfan gyntaf o brentisiaid gradd ddigidol y mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn eu cefnogi drwy Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru yn graddio ym mis Tachwedd 2022.[69]

69. Fodd bynnag, nid oedd yn glir o'r dystiolaeth pa mor hyderus yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ei gapasiti i osgoi toriad yn y system ar draws y GIG yng Nghymru. Dywedodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru wrthym:

> *"...we need to stress [...] that there are things that we can do and that we are raising awareness of that mean that we can deal with cyber, and partners are aware of that, but, actually, to really have the stronger cyber posture is going to need investment."*[70]

70. Fodd bynnag, cawsom wybod hefyd bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwneud popeth o fewn ei allu o ran yr ystum seiber ac o ran argaeledd y gwasanaeth i ddeall beth yw'r risgiau.[71]

71. Tynnodd Archwilio Cymru sylw at ei adolygiad yn 2021 o seibergadernid cyrff cyhoeddus Cymru, a ganfu'r canlynol:

> *"...mae ymosodiadau seibr yn fygythiad cyffredin a chynyddol i gyrff cyhoeddus ac mae lle i gryfhau cadernid drwy gyfrifoldebau cliriach, cynllunio gwell, a mwy o ymwybyddiaeth a sgiliau [...] bod eglurder ar arweinyddiaeth ac atebolrwydd yn y maes hwn o weithredu gyda holl bartneriaid IGDC yn hanfodol".*[72]

[68] Cofnod y Trafodion [paragraff 111], 26 Hydref 2022
[69] Cofnod y Trafodion [paragraff 113], 26 Hydref 2022
[70] Cofnod y Trafodion [paragraff 67], 26 Hydref 2022
[71] Cofnod y Trafodion [paragraff 115], 26 Hydref 2022
[72] SDHCW12 Archwilio Cymru

72. Er gwybodaeth, i ddilyn ei waith yn 2021 ar seiberddiogelwch, rhannodd Archwilio Cymru, ym mis Tachwedd 2022, adroddiad cyfrinachol gyda sefydliadau penodol ar yr hyn a ddysgwyd o ymosodiadau seiber diweddar.

73. Dywedodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru wrthym ei fod yn ceisio codi ymwybyddiaeth o faterion seiberddiogelwch drwy gadeiryddion byrddau iechyd, ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd arbennig, ond:

> *"...the challenge for all of us in the NHS, the chairs sitting around the table, in our plans, is to make sure that we are putting in sufficient resource to address the issue."*[73]

74. Ychwanegodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru fod Uned Seibergadernid GIG Cymru wedi gweithio gyda sefydliadau'r GIG i gynnal asesiad seiberddiogelwch, ond bod y canlyniadau wedi'u hadrodd yn fewnol ym mhob corff ac i Lywodraeth Cymru, ond nid i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ei hun.[74]

Ein barn ni

75. Mae meddu ar y sgiliau a'r capasiti cywir o fewn y gweithlu, o fewn Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'i sefydliadau partner ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn allweddol. Mae diffyg sgiliau a chapasiti o'r fath yn peryglu gallu'r sefydliad i gyflawni, yn enwedig ym maes seiberddiogelwch.

76. Cydnabu Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ystod ein gwaith craffu ei fod yn cael trafferth cystadlu am staff allweddol mewn rhai meysydd, gan orfod canolbwyntio yn hytrach ar ddatblygu ei staff ei hun.[75] Fodd bynnag, roedd yn llai eglur inni pa oblygiadau penodol sydd gan ddiffyg staff o'r fath i gyflawni agenda ac amcanion Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

77. Nid yw anhawster recriwtio sgiliau arbenigol yn fater unigryw i Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Ond, er bod y dystiolaeth a glywsom yn darparu rhethreg ddyheadol fanwl ynghylch sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion hyn, nid ydym yn sicr eto ynghylch digonolrwydd y systemau adnoddau dynol sydd ar waith i gyflawni'r rhain.

78. Mae strategaeth datblygiad sefydliadol Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn amlygu angen i ddeall sefyllfa sylfaenol bresennol yr heriau o ran pobl a bylchau,

[73] Cofnod y Trafodion [paragraff 65], 26 Hydref 2022
[74] Cofnod y Trafodion [paragraff 67], 26 Hydref 2022
[75] Cofnod y Trafodion [paragraff 239], 26 Hydref 2022

a rhoi canolfannau datblygu ar waith i nodi bylchau datblygu posibl a mynd i'r afael â hwy. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod digon o eglurder ynghylch lle mae'r bylchau allweddol a'r swyddi gwag, sut mae camau gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau hyn yn cael eu blaenoriaethu, a pha gamau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r risgiau i gyflawni sy'n deillio o'r swyddi gwag.

Argymhelliad 10. Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu rhagor o dystiolaeth ynghylch y systemau adnoddau dynol a'r capasiti sydd ar gael i hwyluso'r gwaith o recriwtio a chadw pobl â sgiliau arbenigol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth sy'n nodi lle mae'r bylchau allweddol a'r swyddi gwag, sut mae camau gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau hyn yn cael eu blaenoriaethu, a pha gamau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r risgiau i gyflawni sy'n deillio o'r swyddi gwag. Ar ôl darparu'r wybodaeth hon yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi diweddariad chwe misol ar gynnydd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

79. Mae'n bleser gennym nodi y bydd y garfan gyntaf o brentisiaid gradd digidol y mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn eu cefnogi drwy Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru yn graddio ym mis Tachwedd 2022.

Argymhelliad 11. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y garfan o brentisiaid gradd digidol a raddiodd drwy Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru ym mis Tachwedd 2022. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am faint o'r graddedigion aeth i weithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar ôl graddio a faint sy'n dal i weithio yno ym mis Mehefin 2023. Dylai hefyd gynnwys gwybodaeth am sut mae'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n cael eu blaenoriaethu yn y rhaglen yn cyd-fynd â'r meysydd y mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi nodi eu bod yn anodd iddo gystadlu ynddynt wrth recriwtio, ac i ba raddau y mae'r rhaglen yn cynorthwyo i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth o'r fath yn fewnol.

80. Rydym yn arbennig o bryderus ynghylch capasiti mewn perthynas â seiberddiogelwch, gan gynnwys mewn perthynas â rôl arwain ehangach Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn hyn o beth.

Argymhelliad 12. Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru fyfyrio ar ganfyddiadau adroddiad Archwilio Cymru ar seiberddiogelwch ac ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn egluro sut mae'n gweithredu ac yn distyllu'r negeseuon allweddol

yn yr adroddiad, a darparu enghreifftiau o sut mae'n rhannu arfer da gyda sefydliadau cyhoeddus eraill ac yn rhoi arweiniad iddynt.

7. Agenda drawsnewid

Y cefndir

81. Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru rôl bwysig yn y gwaith o drawsnewid iechyd a gofal yng Nghymru. Amlygir rôl data a datblygu gwasanaethau digidol mewn dogfennau allweddol gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys 'Cymru Iachach'.[76] a'r 'Rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru'.[77]

82. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn nodi bod y pandemig COVID-19 wedi cynhyrchu mwy o atebion digidol wrth ddarparu gofal iechyd, ac wedi dangos manteision gwasanaethau digidol. Roedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ymwneud â meysydd fel cefnogi gweithio o bell, ymgynghoriad digidol, profi a brechu.[78]

83. Pwysleisiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yr angen i sicrhau bod cyllid yn cyd-fynd â'r portffolio o raglenni sy'n ehangu.[79] Tynnodd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol sylw at yr angen i ystyried costau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw systemau'n barhaus a'r gallu i ryngweithredu, yn ogystal â chyllid prosiect cychwynnol.[80]

Cyfalaf

84. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddiffyg cyllid cyfalaf fel her. Nododd y gostyngiad yn y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol o £25 miliwn i £10 miliwn yn 2022-23, ac awgrymodd y gallai hyn lesteirio ei allu i ymateb i flaenoriaethau digidol a gwasanaeth newydd.[81] Fodd bynnag, yn ystod y sesiwn dystiolaeth, dywedodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru:

[76] Llywodraeth Cymru, Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, diweddarwyd ym mis Tachwedd 2022
[77] Llywodraeth Cymru, Ein rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru, Ebrill 2022
[78] SDHCW19 Iechyd a Gofal Digidol Cymru
[79] SDHCW11 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
[80] SDHCW22 Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
[81] SDHCW19 Iechyd a Gofal Digidol Cymru

> *"But, in addition to our operational core, what we have seen is the growth in the allocation in relation to digital development. So, we have a digital priorities investment fund and, since our formation, we've seen that funding increase to £31 million this year. So, that inevitably means that the rate and pace at which we have to grow in that space is a high priority. And the reality is that digital technology is moving from a capital intensive to a revenue-based funding model, particularly as you move from a data centre into the cloud. And that will mean, from an operational perspective, that our funding requirements will change and migrate as we move from those developments into business as usual, but equally as we move from a capital-intensive to a revenue-based model. So, working alongside my colleagues in Welsh Government, and alongside our health board colleagues, we're looking at how to optimise our funding model to ensure that it's fit for purpose as we change and develop as an organisation."*[82]

85. Tynnodd y rhanddeiliaid a ymatebodd i'n hymgynghoriad sylw hefyd at gyfyngiadau cyllid cyfalaf. Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fod cyllid cyfalaf yn cael ei ganolbwyntio'n bennaf ar raglenni cenedlaethol ar raddfa fawr, gan ychwanegu ei fod yn:

> *"...imperative that these deliver timely benefits across NHS Wales organisations, given the organisational pressures and the need to deliver [value for money]".*[83]

86. Yn yr un modd, nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yr angen i wneud penderfyniadau anodd gan fod yn rhaid i'r seilwaith ar gyfer systemau allweddol a ddefnyddir wrth ddarparu gofal bob dydd gystadlu ar sail risg â rhaglenni gwaith clinigol y rheng flaen.[84]

87. Dywedodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru wrthym fod staff clinigol GIG Cymru yn daer am fynediad at systemau digidol sy'n eu galluogi i ddarparu gofal gwell, ond bod hyn yn ddibynnol ar yr adnoddau, sydd yn ei dro yn dibynnu ar gael yr arian sydd ei angen.[85]

---

[82] Cofnod y Trafodion [paragraff 18], 26 Hydref 2022
[83] SDHCW15 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
[84] SDHCW11 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
[85] Cofnod y Trafodion [paragraff 284], 26 Hydref 2022

Ein barn ni

88. Mae digidol yn elfen allweddol o'r agenda trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol. Cydnabu Iechyd a Gofal Digidol Cymru hyn yn ei dystiolaeth inni, gan amlygu pwysigrwydd dull gweithredu ac ymagwedd 'economi iechyd cyfan'.[86] Yn ogystal â chyllid o ddydd i ddydd, mae buddsoddiad cyfalaf yn allweddol i barhau i ddarparu gwasanaethau iechyd diogel o ansawdd uchel, yn ogystal â chyflawni nodau tymor hwy i integreiddio gofal.

89. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi tynnu sylw o'r blaen at oblygiadau'r cyllid cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael o fewn cyllidebau diweddar.[87] Yng nghyd-destun cyfyngiadau cyfalaf, mae'n hanfodol serch hynny bod offer TGCh—yn enwedig ar gyfer clinigwyr—yn cael eu diweddaru ar lefelau lleol o fewn sefydliadau'r GIG. Fel arall, bydd effaith gwaith i ddileu rhwystrau llywodraethu neu feddalwedd sy'n cyfyngu ar fynediad a rhannu gwybodaeth ar hyn o bryd yn cael ei chyfyngu.

90. Mae'n destun pryder nad yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi gallu mesur y gofynion cyllid cyfalaf na refeniw ar gyfer trawsnewid digidol. At hynny, ymddengys bod negeseuon cymysg yn nhystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar Iechyd a Gofal Digidol Cymru ynghylch lefel y cyllid sydd ar gael drwy'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol. Ymddengys bod eglurder ynghylch lefel yr adnoddau cyfalaf sydd eu hangen ac sydd ar gael yn allweddol i gynllunio a darparu rhaglen ddigidol effeithiol.

91. Rydym yn nodi o gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 nad oes unrhyw gynnydd yng nghyllideb cyfalaf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n parhau i fod yn £337 miliwn. Rydym hefyd yn nodi bod Conffederasiwn GIG Cymru wedi tynnu sylw at bryderon yn y gorffennol ynghylch diffyg buddsoddiad cyfalaf digonol.[88]

92. Rydym hefyd yn nodi bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio gyda Grŵp Cyfoedion Cyfarwyddwyr Digidol Cymru Gyfan i asesu aeddfedrwydd digidol pob sefydliad o fewn GIG Cymru. Fodd bynnag, nid yw'n glir pwy sy'n gyfrifol am ysgogi trawsnewid digidol neu greu a llywio agenda genedlaethol. Nid yw'r broblem hon yn unigryw i ddigidol. Er enghraifft, yn adroddiad y

[86] Cofnod y Trafodion [paragraff 194], 26 Hydref 2022
[87] Gweler, er enghraifft, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, Chwefror 2023 neu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, Chwefror 2023
[88] Conffederasiwn GIG Cymru, Ymateb i waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, Tachwedd 2022

Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, tynnodd y Pwyllgor sylw at ddiffyg eglurder ynghylch arweinyddiaeth ar gyfer trawsnewid,[89] ac yn ei waith diweddar ar wasanaethau endosgopi, tynnodd sylw at alwadau tystion am fwy o eglurder ynghylch strwythurau atebolrwydd, gan gynnwys Gweithrediaeth newydd y GIG.[90]

93. Credwn fod sicrhau mwy o eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am arwain trawsnewid digidol neu greu a llywio agenda genedlaethol yn hanfodol i sicrhau cynnydd yn y meysydd hyn. Mae angen i naill ai Lywodraeth Cymru neu Iechyd a Gofal Digidol Cymru arwain drwy esiampl, yn enwedig wrth osod nodau ac amcanion ar gyfer y trawsnewid hwnnw. Bydd byrddau iechyd ac awdurdodau lleol sydd â'r dasg o ymgorffori trawsnewid digidol yn elwa ar arweinyddiaeth gliriach, a fydd hefyd yn cyfrannu at gysondeb wrth gyflawni trawsnewid digidol ar draws sefydliadau perthnasol yn y sector cyhoeddus.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am eu rolau priodol o ran darparu arweinyddiaeth ac ysgogiad ar gyfer trawsnewid digidol ym maes iechyd. Dylai hyn gynnwys:

- Sut mae Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd iddi ei hun bod penderfyniadau a wneir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chyrff iechyd eraill yng Nghymru ar flaenoriaethu cyllid cyfalaf yn cyd-fynd â blaenoriaethau trawsnewid Gweinidogion.

- Sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio gyda chyrff iechyd ac yn eu hannog i ddyrannu cyllid digonol ac adnoddau eraill i gyflawni trawsnewid digidol cynaliadwy.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu arfarniad gonest o effaith argaeledd cyfyngedig cyllid cyfalaf ar gyflawni trawsnewid digidol mewn gwasanaethau iechyd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw brosiectau neu raglenni sydd wedi cael eu gohirio, neu sy'n debygol o gael eu gohirio oherwydd diffyg cyllid cyfalaf, asesiad o oblygiadau oedi o'r fath, a pha ddulliau amgen sy'n cael eu hystyried i ariannu/gefnogi twf yn y gofod digidol.

[89] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, Chwefror 2023
[90] Llythyr gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 10 Mawrth 2023

8. Cydweithredu

Y cefndir

94. Mae llawer o'r rhaglenni y mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gyfrifol amdanynt yn gymhleth ac yn aml-sefydliadol, gan gynnwys ystod eang o randdeiliaid. Mae gwaith ymchwil gan The King's Fund ar rôl diwylliant ac arweinyddiaeth mewn amgylchiadau o'r fath yn pwysleisio pwysigrwydd diwylliant, arweinyddiaeth a pherthnasoedd cydweithio da rhwng staff; technoleg sy'n hwyluso cydweithio; ac amgylcheddau galluogi lle mae cyllid, capasiti, sgiliau, addysg a llywodraethu yn cyd-fynd.[91]

95. Yn 2019, dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd:

> *"Bydd Rhaglen Trawsnewid Digidol yn cael ei sefydlu'n benodol i helpu i gyflawni hyn, ond rwy'n cydnabod y bydd cyflymder y newid yn dibynnu ar barodrwydd pob rhanddeiliad a phartner i fabwysiadu dulliau cyffredin a gweithio gyda'i gilydd. Rwy'n disgwyl gweld arweinyddiaeth gydweithredol gadarn ar bob lefel, ochr yn ochr â'r newid sylweddol mewn buddsoddi a'r trefniadau cyflawni diwygiedig".*[92]

96. Pan ofynnwyd i bwy y cawsant eu sefydlu i wasanaethu, dywedodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru:

> *"...historically, the role of an organisation like ours within a health and care system was aimed at the professionals, was aimed at clinicians, was aimed at the tools and the technology needed to support front-line delivery, therefore serving patients. Our role now is actually reaching out into the role of being patient facing as well. And one of the major strategic programmes of work for us is digital services for patients and the public, which will, for the first time, give patients access and the ability to interact digitally with the health and care service in the way, frankly, that you quite expect to do during every*

[91] The King's Fund, Interoperability is more than technology: The role of culture and leadership in joined-up care (Saesneg yn unig), Medi 2022
[92] Llywodraeth Cymru, Datganiad ysgrifenedig: Diweddariad ar Iechyd a Gofal Digidol, 30 Medi 2019, 30 Medi 2019

> *other day of your life and the things that you do. So, I think that we are here to serve the people of Wales, and we do that by serving the provision of health and care services and supporting that".*[93]

97. Ychwanegodd:

> *"Collaboration is a core element of our values, actually. Part of our ambition, and actually in the conversation about changing the culture of the organisation, one of our strategic missions is about becoming that trusted strategic partner. So, we've worked really hard to really evidence that, if you like, and that's what we're trying to do is work in the open. So, yes, there's a lot of collaboration that goes on and there's a lot of opportunity to work with local organisations on what they're doing, and we've got some really great examples of where local innovation has then been scaled up into a national programme that's been rolled out. Rhidian will be able to talk to us about the nursing record—it's award winning. That came from a really good idea in a local organisation."*[94]

98. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn nodi ffocws cynyddol ar ymgysylltu â rhanddeiliaid; ymrwymiad i gydgynhyrchu a gweithio'n agos gyda chleifion, clinigwyr a darparwyr; cydnabyddiaeth o rôl hollbwysig gweithio mewn partneriaeth wrth gyflawni'r agenda ddigidol; a'r angen i gydweithredu mwy â'r trydydd sector a'r sector gofal cymdeithasol.[95] Ategir hyn gan ganfyddiadau Adolygiad Llywodraethu Llinell Sylfaen Archwilio Cymru o Iechyd a Gofal Digidol Cymru, a nododd:

> *"...ceir tystiolaeth dda bod adnoddau ac egni'n cael eu neilltuo i feithrin cysylltiadau allanol ac i gasglu sylwadau a gwybodaeth".*[96]

Partneriaid a rhanddeiliaid

99. Disgrifiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan berthynas dda rhwng byrddau iechyd ac arweinwyr Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Fodd bynnag, dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin

[93] Cofnod y Trafodion [paragraff 26], 26 Hydref 2022
[94] Cofnod y Trafodion [paragraff 245], 26 Hydref 2022
[95] SDHCW19 Iechyd a Gofal Digidol Cymru
[96] Archwilio Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru: Adolygiad Llywodraethu Llinell Sylfaen, Ionawr 2022

Bevan y bu anawsterau wrth ymgysylltu'n ffurfiol ar y cyd ar feysydd â blaenoriaeth ers i'r Bwrdd Rheoli Gwybodeg Cenedlaethol ddod i ben, a galwodd am gamau brys i fynd i'r afael â'r llywodraethu ynghylch ymgysylltu ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru a byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau iechyd.[97]

100. Yn yr un modd, awgrymodd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol fod angen mwy o gydweithredu, gan gynnwys sicrhau bod defnyddwyr yn ganolog i gynllunio newidiadau:

> *"Even more may need to be done to signal the level of desire to listen to concerns, invite stakeholders in to share issues, co-design solutions and work towards solutions openly. [...] In pursuit of lasting change, DHCW could work more with a collaborative 'we are doing this together' approach, with a transparent goal that organisations it works with will develop their own digital capability and change agency/capability".*[98]

101. Cytunodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru fod angen gwneud mwy i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu cynnwys yn llawn, gan dynnu sylw at bryderon penodol ynghylch y rhaglen Dewis Fferyllfa.[99] Galwodd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol hefyd am fwy o ymgysylltiad rhwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru a defnyddwyr, gan gynnwys llwybrau ar gyfer adborth gan y gweithlu sy'n defnyddio'r systemau.[100]

102. Amlygodd ymatebion gan weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd bryderon ynghylch i ba raddau y mae cymorth ag adnoddau ar gael i'r gweithwyr hyn ar faterion digidol ar lefel byrddau iechyd o gymharu â phroffesiynau eraill.[101] Ar hyn o bryd dim ond un swydd barhaol sydd yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru: Arweinydd Cenedlaethol Gwybodeg Glinigol ar gyfer Therapïau. Dywedodd gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd y gall hyn achosi datgysylltiad rhwng datrysiadau TG cenedlaethol a lleol, a galwodd am arweinwyr gwybodeg dynodedig a chefnogol ym mhob bwrdd iechyd, cytundeb

[97] SDHCW15 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a SDHCW11 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
[98] SDHCW13 Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
[99] SDHCW01 Fferylliaeth Gymunedol Cymru
[100] SDHCW22 Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
[101] SDHCW03 Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd; SDHCW10 Coleg Brenhinol Podiatreg; SDHCW14 Cyfarwyddwyr Therapïau a Gwyddorau Gofal Iechyd Cymru Gyfan; SDHCW17 Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yng Nghymru

gweledigaeth a safonau digidol, a gwell ymgysylltiad rhwng gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

103. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, mae Gofal a Thrwsio Cymru yn nodi nad oedd yn gwbl ymwybodol o'r cynnydd ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru gan nad yw wedi cael ei gyfleu'n eang i randdeiliaid na'r cyhoedd.[102]

104. Gwnaethom holi Iechyd a Gofal Digidol Cymru am hyn a chlywsom ei fod yn awyddus i gynyddu ymgysylltiad â'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector, a'i fod wedi cynnal uwchgynhadledd ddigidol yn ddiweddar gyda Cwmpas a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.[103] Dywedodd Cadeirydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru wrthym:

> *"...there's an awful lot of stuff going on around Wales, around digital inclusion and digital involvement of people through the third sector. And I'm really keen that we work with that sector as partners, which sometimes doesn't always happen when the public sector works with the voluntary sector".*[104]

105. O ran y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda chydweithredu, clywsom fod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r trydydd sector i raddau helaeth ynghylch cynhwysiant digidol ac ymgysylltiad digidol.[105]

Cydweithredu trawsffiniol

106. Mynegwyd rhai pryderon gennym ynghylch gwahaniaeth neu ddatgysylltiad rhwng systemau digidol yng Nghymru a systemau cyfatebol yn Lloegr.[106] Er enghraifft, mae angen systemau digidol a all weithio gyda'i gilydd ar bractisau meddygon teulu sy'n gwasanaethu rhestr cleifion trawsffiniol, a'r byrddau iechyd hynny sy'n agos at y ffin â Lloegr, sy'n atgyfeirio cleifion yn aml at ddarparwyr yn Lloegr.

107. Cawsom wybod y canlynol:

> *"We've engaged with some services, including, for example, genetics, plastic surgery, orthopaedics, in a way that we can collect that output*

[102] SDHCW09 Gofal a Thrwsio Cymru
[103] Cofnod y Trafodion [paragraff 253], 26 Hydref 2022
[104] Cofnod y Trafodion [paragraff 253], 26 Hydref 2022
[105] Cofnod y Trafodion [paragraff 255], 26 Hydref 2022
[106] Cofnod y Trafodion [paragraff 45], 26 Hydref 2022

> *of care information on one side of the border and put it into our repositories. We're also exploring ways to expose the data of the Welsh citizens in a way that is safe and secure within the English infrastructure.*[107]

108. Ychwanegodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru fod gwaith yn cael ei wneud ar y pasbort claf rhyngwladol i'w wneud yn safonol ledled y DU, a bod rhan o'r gwaith y mae'n ei wneud ar gyfer gwasanaethau digidol a chleifion yn ceisio cyflwyno'r cofnod mewn ffordd y gall y claf ei gario i ble mae angen iddo fynd.[108] Dywedodd wrthym hefyd fod rhywfaint o waith penodol wedi'i wneud gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, wedi'i dargedu at drosglwyddo nifer uchel o gleifion a gawsant, gan alluogi anfon atgyfeiriadau yn electronig i'r ardaloedd hynny dros y ffin.[109]

Ein barn ni

109. Mae rhywfaint o dystiolaeth o gydweithredu; mae hyn i'w groesawu, gan ein bod yn cytuno ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, sef i fod yn llwyddiannus, rhaid cydweithredu.[110] Rydym yn croesawu'r gwerth y mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi'i roi i gydweithredu a'i fwriad i gynyddu ymgysylltiad â'i sefydliadau partner. Fodd bynnag, mae gennym bryderon difrifol ynghylch effeithiolrwydd cydweithredu gan mai prin oedd yr enghreifftiau diriaethol o ble mae hyn yn digwydd yn ymarferol ac mae llawer o randdeiliaid yn galw am fwy o gydweithredu.

110. Credwn fod cydweithredu rhwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'i bartneriaid yn hanfodol i gyflawni eu cyfrifoldebau ar y cyd fel sefydliadau'r sector cyhoeddus ac mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru rôl naturiol i'w chwarae wrth arwain ar hyn.

111. O fewn tirwedd mor gymhleth ag iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, mae cynnal cydweithrediad cyson ac effeithiol yn dasg fawr, ac yn un sy'n gofyn am arweiniad a chyfranogiad clinigol. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru eisoes yn ymgymryd ag ymgysylltiad clinigol helaeth, yn cyflogi arweinwyr clinigol, ac yn cyd-ddylunio systemau gyda defnyddwyr, a rhaid canmol y cyfan. Fodd bynnag, yng nghyd-destun yr agenda ddigidol heriol, byddem yn croesawu rhagor o eglurder ar gynaliadwyedd y dull gweithredu

[107] Cofnod y Trafodion [paragraff 47], 26 Hydref 2022
[108] Cofnod y Trafodion [paragraff 47], 26 Hydref 2022
[109] Cofnod y Trafodion [paragraff 48], 26 Hydref 2022
[110] Cofnod y Trafodion [paragraff 339], 26 Hydref 2022

presennol a sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru, a'i bartneriaid, yn cydbwyso blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Argymhelliad 15. Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ymgysylltu â'i sefydliadau partner i werthuso ei ddulliau presennol o gydweithio, a nodi meysydd i'w gwella a chyfleoedd i gryfhau perthnasoedd. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru amlinellu sut y bydd yn cynnal y gwerthusiad hwn. Dylai wedyn roi diweddariadau chwe misol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar sut mae'n cydweithio â'i bartneriaid a'r hyn y mae cydweithrediad o'r fath wedi'i gyflawni.

112. Rydym yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru i wella cysylltedd rhwng systemau digidol yng Nghymru a systemau cyfwerth yn Lloegr. Fodd bynnag, rydym yn pryderu o hyd bod y datgysylltiad presennol yn cael effaith niweidiol ar gleifion o Gymru sy'n cael triniaeth yn Lloegr, gyda gwybodaeth hanfodol am gofnodion claf ddim yn cael ei rhannu mewn ffordd effeithlon nac amserol.

Argymhelliad 16. Rydym yn awyddus i sicrhau bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn hygyrch mewn modd priodol i gleifion yng Nghymru pan maent yn derbyn gwasanaethau'r GIG yn Lloegr. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU i ystyried ffyrdd y gall gwasanaethau iechyd digidol yng Nghymru a Lloegr alinio a chysylltu'n well.

Rhestr o'r argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am eu rolau priodol wrth bennu blaenoriaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chyflawni prosiectau mawr. Dylai hyn gynnwys:

- Sut mae Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd iddi ei hun bod blaenoriaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru ac yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni.

- Sut y gwneir penderfyniadau ar flaenoriaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, gan gynnwys pryd a chan bwy.

- Sut mae Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r tîm gweithredol yn monitro cynnydd ar brosiectau mawr, gan gynnwys a yw amserlenni a cherrig milltir allweddol yn cael eu cyflawni.

- Pa rôl, os o gwbl, fydd yn cael ei chwarae gan Weithrediaeth GIG Cymru.

..... (tudalen 7)

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru nodi pwy sy'n gyfrifol am arwain rhaglen System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am Uwch-swyddogion Cyfrifol y rhaglen. Os yw Prif Weithredwr interim Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau fel Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer rhaglen WCCIS, dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu asesiad i weld a yw'n realistig i un unigolyn ymgymryd â'r ddwy rôl ar yr un pryd, a gwybodaeth am unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd i liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r rolau sy'n cael eu cyflawni ar yr un pryd...... (tudalen 13)

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi diweddariadau chwe misol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar y cynnydd o ran darparu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Dylai'r diweddariadau gynnwys gwybodaeth am wariant hyd yma, y gwariant sydd wedi'i gynllunio, y defnydd o WCCIS ymhlith byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, ymgysylltiad neu ymgynghoriad â phartneriaid perthnasol. Dylid darparu'r diweddariad cyntaf yn yr ymatebion i'r adroddiad hwn...... (tudalen 13)

Argymhelliad 4. Yn eu hymatebion i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi diweddariad ar ganlyniad adolygiad o strategaeth gontractio WCCIS a oedd i adrodd erbyn mis Mawrth 2023. ... (tudalen 14)

Argymhelliad 5. Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu amserlen ar gyfer cyflwyno Ap GIG Cymru ymhellach, gan gynnwys targedau allweddol, canlyniadau, amserlenni a dibyniaethau. Dylai'r amserlen roi darlun clir o flaenoriaethau a chynlluniau, a galluogi monitro cynnydd. Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus cyn diwedd 2023 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn erbyn yr amserlen..... (tudalen 16)

Argymhelliad 6. Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddatblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer darparu gwybodaeth glir a hygyrch am sut i ddefnyddio'r Ap. Dylid anelu at annog pobl ledled Cymru i ddefnyddio Ap GIG Cymru, a sicrhau bod gan bobl hyder i'w ddefnyddio. Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus cyn diwedd 2023 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer y bobl sy'n defnyddio'r Ap. ..... (tudalen 16)

Argymhelliad 7. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi manylion am sut y bydd datblygu a chyflwyno Ap GIG Cymru yn cydnabod ac yn mynd i'r afael â heriau allgáu digidol ar gyfer gwahanol grwpiau o'r boblogaeth. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut y bydd yr Ap yn cael ei hyrwyddo, y sianeli cyfathrebu digidol ac nad ydynt yn ddigidol a fydd yn cael eu defnyddio i'w hyrwyddo, a sut y bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn sicrhau nad yw cyfathrebiadau digidol-yn-unig yn cael eu defnyddio'n ddiofyn..... (tudalen 16)

Argymhelliad 8. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru amlinellu'r trefniadau llywodraethu a diogelu data sydd ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflwyno a gweithredu Ap GIG Cymru..... (tudalen 17)

Argymhelliad 9. Erbyn diwedd 2023 dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru gyhoeddi cynllun clir, realistig wedi'i flaenoriaethu ar gyfer cynyddu ei ymgysylltiad â'r sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys darparwyr yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Dylid datblygu'r cynllun drwy ymgysylltu â'r sector gofal cymdeithasol, a dylai gynnwys amserlenni clir ac asesiad o'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer ei gyflawni. Dylai Iechyd a Gofal Digidol

Cymru ddarparu copi o'r cynllun i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, a darparu diweddariad chwe misol ar gynnydd yn erbyn y cynllun. ..... (tudalen 19)

Argymhelliad 10. Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu rhagor o dystiolaeth ynghylch y systemau adnoddau dynol a'r capasiti sydd ar gael i hwyluso'r gwaith o recriwtio a chadw pobl â sgiliau arbenigol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth sy'n nodi lle mae'r bylchau allweddol a'r swyddi gwag, sut mae camau gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau hyn yn cael eu blaenoriaethu, a pha gamau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r risgiau i gyflawni sy'n deillio o'r swyddi gwag. Ar ôl darparu'r wybodaeth hon yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi diweddariad chwe misol ar gynnydd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. ..... (tudalen 25)

Argymhelliad 11. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y garfan o brentisiaid gradd digidol a raddiodd drwy Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru ym mis Tachwedd 2022. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am faint o'r graddedigion aeth i weithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar ôl graddio a faint sy'n dal i weithio yno ym mis Mehefin 2023. Dylai hefyd gynnwys gwybodaeth am sut mae'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n cael eu blaenoriaethu yn y rhaglen yn cyd-fynd â'r meysydd y mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi nodi eu bod yn anodd iddo gystadlu ynddynt wrth recriwtio, ac i ba raddau y mae'r rhaglen yn cynorthwyo i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth o'r fath yn fewnol. ..... (tudalen 25)

Argymhelliad 12. Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru fyfyrio ar ganfyddiadau adroddiad Archwilio Cymru ar seiberddiogelwch ac ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn egluro sut mae'n gweithredu ac yn distyllu'r negeseuon allweddol yn yr adroddiad, a darparu enghreifftiau o sut mae'n rhannu arfer da gyda sefydliadau cyhoeddus eraill ac yn rhoi arweiniad iddynt. ..... (tudalen 25)

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am eu rolau priodol o ran darparu arweinyddiaeth ac ysgogiad ar gyfer trawsnewid digidol ym maes iechyd. Dylai hyn gynnwys:

- Sut mae Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd iddi ei hun bod penderfyniadau a wneir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chyrff iechyd eraill yng Nghymru ar flaenoriaethu cyllid cyfalaf yn cyd-fynd â blaenoriaethau trawsnewid Gweinidogion.

- Sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio gyda chyrff iechyd ac yn eu hannog i ddyrannu cyllid digonol ac adnoddau eraill i gyflawni trawsnewid digidol cynaliadwy. (tudalen 29)

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu arfarniad gonest o effaith argaeledd cyfyngedig cyllid cyfalaf ar gyflawni trawsnewid digidol mewn gwasanaethau iechyd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw brosiectau neu raglenni sydd wedi cael eu gohirio, neu sy'n debygol o gael eu gohirio oherwydd diffyg cyllid cyfalaf, asesiad o oblygiadau oedi o'r fath, a pha ddulliau amgen sy'n cael eu hystyried i ariannu/gefnogi twf yn y gofod digidol. (tudalen 29)

Argymhelliad 15. Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ymgysylltu â'i sefydliadau partner i werthuso ei ddulliau presennol o gydweithio, a nodi meysydd i'w gwella a chyfleoedd i gryfhau perthnasoedd. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru amlinellu sut y bydd yn cynnal y gwerthusiad hwn. Dylai wedyn roi diweddariadau chwe misol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar sut mae'n cydweithio â'i bartneriaid a'r hyn y mae cydweithrediad o'r fath wedi'i gyflawni. (tudalen 35)

Argymhelliad 16. Rydym yn awyddus i sicrhau bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn hygyrch mewn modd priodol i gleifion yng Nghymru pan maent yn derbyn gwasanaethau'r GIG yn Lloegr. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU i ystyried ffyrdd y gall gwasanaethau iechyd digidol yng Nghymru a Lloegr alinio a chysylltu'n well. (tudalen 35)